OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 124

Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*16 Hydref 2026*
Yn dod i rym	*1 Ionawr 2027*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 124

The Tobacco and Vapes Act 2026 (Age of Sale Notices and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*16 October 2026*
Coming into force	*1 January 2027*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 124

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 1 o Ddeddf Tybaco a Fêps 2026 ("Deddf 2026") yn newid yr oedran gofynnol y caniateir i gynhyrchion tybaco gael eu gwerthu yn gyfreithlon i unigolyn, o unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd i unigolyn a anwyd cyn 1 Ionawr 2009. O dan adran 6(1) o Ddeddf 2026, rhaid i fanwerthwyr tybaco yng Nghymru arddangos hysbysiad yn eu mangreoedd sy'n cynnwys y datganiadau yn adran 6(2) o'r Ddeddf honno er mwyn adlewyrchu'r gofyniad oedran gwerthu newydd. Mae rheoliad 2 yn rhagnodi'r gofynion maint lleiaf ar gyfer hysbysiad o'r fath, ac mae rheoliad 3 yn rhagnodi maint lleiaf y datganiadau sydd i'w cynnwys yn yr hysbysiad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau, sy'n ganlyniadol i Ddeddf 2026, i reoliadau sy'n llywodraethu arddangos cynhyrchion tybaco a'u prisiau yng Nghymru. Mae rheoliad 4(2) yn diwygio Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012 ("y Rheoliadau Arddangos Cynhyrchion Tybaco") i ddiweddaru'r esemptiad sydd ar gael pan fo arddangos i drydydd person yn deillio o arddangosiad sy'n destun cais (fel y'i diffinnir yn adran 7B(8) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002), o ganlyniad i'r gofyniad oedran gwerthu newydd. Mae rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i'r gofynion ar gyfer arddangos rhestrau prisiau yn Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012.

Mae rheoliad 4(3) o'r Rheoliadau hyn yn diweddaru'r esemptiad yn y Rheoliadau Arddangos Cynhyrchion Tybaco ar gyfer swmpwerthwyr tybaco yng Nghymru (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny) o ganlyniad i'r gofyniad oedran gwerthu newydd. Mae rheoliad 4(3) hefyd yn diwygio, er cysondeb â rheoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn, faint lleiaf yr hysbysiad y mae rhaid i swmpwerthwyr tybaco ei arddangos a maint lleiaf y datganiad ar yr hysbysiad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 124

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*16 Hydref 2026*
Yn dod i rym	*1 Ionawr 2027*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), a 170(1)(a) a (3)(a)(i) o Ddeddf Tybaco a Fêps 2026(**1**), adran 7B(3) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002(**2**), ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**3**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2027.

Hysbysiad oedran gwerthu ym mhob man gwerthu: maint lleiaf

2. Rhaid i faint yr hysbysiad sydd i'w arddangos yn unol ag adran 6(1) o Ddeddf Tybaco a Fêps 2026(**4**) (hysbysiad oedran gwerthu yn y man gwerthu: Cymru) fesur o leiaf 297 o filimetrau wrth 420 o filimetrau.

Hysbysiad oedran gwerthu ym mhob man gwerthu: maint lleiaf datganiadau

3. Rhaid i faint y datganiadau sydd i'w harddangos ar yr hysbysiad y cyfeirir ato yn rheoliad 2 olygu bod pob llythyren a rhif yn 12 milimetr o uchder o leiaf.

Diwygio Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012

4.—(1) Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (arddangos o ganlyniad i arddangosiad sy'n destun cais), ym mharagraff (1), yn lle "sy'n 18 oed neu drosodd" rhodder "a anwyd cyn 1 Ionawr 2009".

(**1**) 2026 p. 18.
(**2**) 2002 p. 36. Mewnosodwyd adran 7B gan adran 21 o Ddeddf Iechyd 2009 (p. 21). Gweinidogion Cymru yw'r "*Gweinidog priodol*" o ran Cymru o dan adran 21(1) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002, a amnewidiwyd gan adran 24 o Ddeddf Iechyd 2009 a pharagraffau 2 a 12 o Atodlen 4 iddi.
(**3**) 1993 p. 38.
(**4**) 2026 p. 18.
(**5**) O.S. 2012/1285 (Cy. 163).

(3) Yn rheoliad 5 (arddangos mewn mangreoedd swmpwerthwyr tybaco)—

(a) ym mharagraff (2), yn is-baragraff (b), yn lle'r geiriau o "Mae" hyd at "age of 18" rhodder—

"Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009

It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009";

(b) yn lle paragraff (3), rhodder—

"(3) Rhaid i ddimensiynau'r hysbysiad sydd i'w roi ar ddangos yn unol â pharagraff (2)(b) fesur o leiaf 297 o filimetrau wrth 420 o filimetrau, a rhaid i faint y datganiad sydd i'w arddangos ar yr hysbysiad olygu bod pob llythyren a rhif yn 12 milimetr o uchder o leiaf.".

Diwygio Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012

5.—(1) Mae Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (rhestrau prisiau: ar gael ar gais yn unig)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "18 oed neu drosodd" rhodder "a anwyd cyn 1 Ionawr 2009";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "yn 18 oed neu drosodd" rhodder "wedi ei eni cyn 1 Ionawr 2009";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "yn 18 oed neu drosodd" rhodder "wedi ei eni cyn 1 Ionawr 2009";

(ii) yn is-baragraff (a), yn lle "o dan 18 oed" rhodder "wedi ei eni ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009";

(iii) yn is-baragraff (b), yn lle "oedran" rhodder "ddyddiad geni".

Nerys Evans
Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Cyhoeddus ac Ataliol, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru
16 Hydref 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**6**) O.S. 2012/1911 (Cy. 233).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 124

PUBLIC HEALTH, WALES

The Tobacco and Vapes Act 2026 (Age of Sale Notices and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Section 1 of the Tobacco and Vapes Act 2026 ("the 2026 Act") changes the required age at which an individual can legally be sold tobacco products from an individual aged 18 or over, to an individual born before 1 January 2009. Under section 6(1) of the 2026 Act, tobacco retailers in Wales must display a notice on their premises that contains the statements in section 6(2) of that Act to reflect the new age of sale requirement. Regulation 2 prescribes the minimum size requirements for such a notice, and regulation 3 prescribes the minimum size of the statements to be contained in that notice.

These Regulations also make amendments consequential to the 2026 Act to regulations governing the display of tobacco products and prices in Wales. Regulation 4(2) amends the Tobacco Advertising and Promotion (Display) (Wales) Regulations 2012 ("the Tobacco Products Display Regulations") to update the exemption available where display to a third person results from a requested display (as defined in section 7B(8) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002), in consequence of the new age of sale requirement. Regulation 5 makes equivalent amendments to the requirements for the display of price lists in the Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012.

Regulation 4(3) of these Regulations updates the exemption in the Tobacco Products Display Regulations for bulk tobacconists in Wales (as defined in regulation 2(1) of those Regulations) in consequence of the new age of sale requirement. Regulation 4(3) also amends, for consistency with regulations 2 and 3 of these Regulations, the minimum size of the notice that bulk tobacconists must display and the minimum size of the statement on that notice.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory

impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 124

PUBLIC HEALTH, WALES

The Tobacco and Vapes Act 2026 (Age of Sale Notices and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*16 October 2026*
Coming into force	*1 January 2027*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 6(4), and 170(1)(a) and (3)(a)(i) of the Tobacco and Vapes Act 2026(**1**), section 7B(3) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002(**2**), and section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**3**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Tobacco and Vapes Act 2026 (Age of Sale Notices and Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 January 2027.

Age of sale notice at each point of sale: minimum size

2. The size of the notice to be displayed in accordance with section 6(1) of the Tobacco and Vapes Act 2026(**4**) (age of sale notice at point of sale: Wales) must be a minimum of 297 millimetres by 420 millimetres.

Age of sale notice at each point of sale: minimum size of statements

3. The size of the statements to be displayed on the notice referred to in regulation 2 must be such that every letter and number is a minimum of 12 millimetres high.

(**1**) 2026 c. 18.
(**2**) 2002 c. 36. Section 7B was inserted by section 21 of the Health Act 2009 (c. 21). The Welsh Ministers are the "*appropriate Minister*" in relation to Wales under section 21(1) of the Tobacco Advertising and Promotion Act 2002, which was substituted by section 24 of, and paragraphs 2 and 12 of Schedule 4 to, the Health Act 2009.
(**3**) 1993 c. 38.
(**4**) 2026 c. 18.

Amendments to the Tobacco Advertising and Promotion (Display) (Wales) Regulations 2012

4.—(1) The Tobacco Advertising and Promotion (Display) (Wales) Regulations 2012(**5**) are amended as follows.

(2) In regulation 4 (display as a consequence of a requested display), in paragraph (1), for "aged 18 or over" substitute "born before 1 January 2009".

(3) In regulation 5 (display in bulk tobacconists)—

(a) in paragraph (2), in sub-paragraph (b), for the words from "Mae" to "age of 18" substitute—

"Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009

It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009";

(b) for paragraph (3), substitute—

"(3) The dimensions of the notice to be exhibited in accordance with paragraph (2)(b) must be a minimum of 297 millimetres by 420 millimetres and the size of the statement to be displayed on the notice must be such that every letter and number is a minimum of 12 millimetres high.".

Amendments to the Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012

5.—(1) The Tobacco Advertising and Promotion (Display of Prices) (Wales) Regulations 2012(**6**) are amended as follows.

(2) In regulation 7 (price lists: available only on request)—

(a) in paragraph (1)—

(i) in sub-paragraph (a), for "aged 18 or over" substitute "born before 1 January 2009";

(ii) in sub-paragraph (b), for "is aged 18 or over" substitute "was born before 1 January 2009";

(b) in paragraph (2)—

(i) in the words before sub-paragraph (a), for "is aged 18 or over" substitute "was born before 1 January 2009";

(ii) in sub-paragraph (a), for "aged under 18" substitute "born on or after 1 January 2009";

(iii) in sub-paragraph (b), for "age" substitute "date of birth".

(**5**) S.I. 2012/1285 (W. 163).
(**6**) S.I. 2012/1911 (W. 233).

Nerys Evans
Deputy Minister for Public and Preventative Health, under authority of the Cabinet Minister for Health and Care, one of the Welsh Ministers
16 October 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839895-3

9 780348 398953